Gweinyddiaeth Cyfiawnder

**Hysbysiad Preifatrwydd GDPR i gyflogeion, gweithwyr a chontractwyr (DU).**

## 1. Beth yw pwrpas y ddogfen hon?

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi ymrwymo i ddiogelu preifatrwydd a diogelwch eich gwybodaeth bersonol.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn disgrifio sut rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch yn ystod ac ar ôl eich perthynas waith gyda ni, yn unol â chyfraith diogelu data, gan gynnwys y Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol (GDPR).

Mae'n berthnasol i bob cyflogai, gweithiwr a chontractwr.

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn "rheolydd data". Mae hyn yn golygu ein bod yn gyfrifol am benderfynu sut rydym yn dal ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch chi. Mae'n ofynnol i ni, o dan y ddeddfwriaeth diogelu data, roi gwybod i chi am y wybodaeth sydd yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Mae'r hysbysiad hwn yn berthnasol i weithwyr cyfredol a chyn weithwyr, ac ymgeiswyr ar gyfer swyddi newydd. Nid yw'r hysbysiad hwn yn rhan o unrhyw gontract cyflogaeth na chontract arall i ddarparu gwasanaethau. Gellir diweddaru'r hysbysiad hwn ar unrhyw adeg a byddwn yn eich hysbysu os bydd hyn yn digwydd.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr hysbysiad hwn, yn ogystal ag unrhyw hysbysiad preifatrwydd arall a ddarperir ar achlysuron penodol pan fyddwn yn casglu neu'n prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch, fel eich bod yn ymwybodol o sut a pham rydym yn defnyddio gwybodaeth o'r fath.

## 2. Egwyddorion diogelu data

Byddwn yn cydymffurfio â'r gyfraith diogelu data. Mae'n nodi bod rhaid i'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch:

1. Gael ei defnyddio mewn ffordd gyfreithlon, deg a thryloyw.
2. Gael ei chasglu yn unig at ddibenion dilys rydym wedi'u hegluro'n eglur i chi ac nad yw wedi'i defnyddio mewn unrhyw ffordd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny.
3. Bod yn berthnasol i'r dibenion rydym wedi dweud wrthych amdanynt ac yn gyfyngedig at y dibenion hynny'n unig.
4. Yn gywir ac yn gyfoes.
5. Wedi'i chadw cyn hired ag y bo angen at y dibenion rydym wedi dweud wrthych amdanynt.
6. Wedi'i chadw'n ddiogel.

## 3. Y math o wybodaeth sydd gennym amdanoch chi

Mae data personol, neu wybodaeth bersonol, yn golygu unrhyw wybodaeth am unigolyn y gellir adnabod y person hwnnw ohoni. Nid yw'n cynnwys data lle mae'r hunaniaeth wedi'i dynnu (data anhysbys).

Mae "categorïau arbennig" o ddata personol mwy sensitif sydd angen lefel uwch o ddiogelwch.

Rydym yn casglu, storio a defnyddio'r categorïau canlynol o wybodaeth bersonol amdanoch chi:

- Manylion cyswllt personol fel enw, teitl, cyfeiriad, rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost personol.
- Dyddiadau geni, priodi ac ysgaru.
- Rhywedd.
- Statws priodas a dibynyddion.
- Perthynas agosaf, rhif cyswllt mewn argyfwng a gwybodaeth enwebai/enwebeion budd-dal marwolaeth.
- Rhif Yswiriant Cenedlaethol.
- Manylion cyfrif banc, cofnodion cyflogres a gwybodaeth statws treth.
- Gwybodaeth am gyflog, gwyliau blynyddol, pensiwn a budd-daliadau.
- Dyddiad cychwyn a dyddiad gadael.
- Lleoliad cyflogaeth neu weithle.
- Copi o drwydded yrru, pasbort, tystysgrifau geni a phriodi, dyfarniad absoliwt.
- Gwybodaeth recriwtio (gan gynnwys copïau o ddogfennau hawl i weithio, geirda a gwybodaeth bellach sy’n cael ei chynnwys mewn CV neu lythyr eglurhaol fel rhan o’r broses ymgeisio).
- Cofnodion cyflogaeth llawn ar gyfer swyddi yn y Gwasanaeth Sifil (gan gynnwys contract, telerau ac amodau, teitlau swyddi, hanes gwaith, oriau gwaith, dyrchafiad, absenoldebau, presenoldeb, cofnodion hyfforddi ac aelodaeth broffesiynol).
- Hanes iawndal.
- Gwybodaeth am berfformiad a gwerthusiadau.
- Gwybodaeth am brosesau disgyblu a chwynion cyflogaeth.
- Cyflogaeth eilradd a gwybodaeth am wirfoddoli.
- Deunydd CCTV a gwybodaeth arall a geir drwy ddulliau electronig fel cofnodion cerdyn sweipio.
- Gwybodaeth ynglŷn â’ch defnydd o'n systemau gwybodaeth a chyfathrebu.
- Ffotograffau, fideos.
- Llyfr damweiniau, cofnodion cymorth cyntaf, anafiadau yn y gwaith a gwybodaeth am ddamweiniau trydydd parti.
- Tystiolaeth o sut rydych chi'n bodloni rheolau cenedligrwydd y Gwasanaeth Sifil a chadarnhad o'ch cliriad diogelwch. Gall hyn gynnwys manylion pasbort, manylion cenedligrwydd a gwybodaeth am euogfarnau/honiadau o ymddygiad troseddol.
- Tystiolaeth o'ch hawl i weithio yn y DU/statws mewnfudo.

Byddwn hefyd yn casglu, yn storio ac yn defnyddio'r "categorïau arbennig" canlynol o wybodaeth bersonol sy’n fwy sensitif:

- Gwybodaeth am eich hil neu'ch ethnigrwydd, credoau crefyddol, cyfeiriadedd rhywiol a barn wleidyddol.
- Aelodaeth o undeb llafur.
- Gwybodaeth ynglŷn â’ch iechyd, gan gynnwys unrhyw gyflwr meddygol, cofnodion iechyd a salwch.
- Gwybodaeth genetig a data biometreg.
- Gwybodaeth am euogfarnau/honiadau troseddol a throseddau.

## 4. Sut caiff eich gwybodaeth bersonol ei chasglu?

Fel arfer, rydym yn casglu gwybodaeth bersonol am gyflogeion, gweithwyr a chontractwyr drwy'r broses ymgeisio a'r broses recriwtio, naill ai'n uniongyrchol oddi wrth ymgeiswyr neu weithiau gan asiantaeth gyflogi neu ddarparwr sy’n gwirio cefndiroedd. Weithiau, byddwn yn casglu gwybodaeth ychwanegol gan drydydd partïon gan gynnwys cyn-gyflogwyr, asiantaethau gwirio credyd neu asiantaethau eraill sy’n gwirio cefndiroedd, gan gynnwys:

- Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC)
- Gwasanaethau Busnes Amddiffyn (DBS)
- Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)
- Gwasanaeth Gwirio Diogelwch Cenedlaethol
- Gwasanaeth gwirio’r heddlu
- Byddwn yn adolygu rhestrau o hen ymgeiswyr aflwyddiannus ar gyfer rhai swyddi yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder
- Adrannau eraill y Llywodraeth
- Meddygon y gweithiwr
- Gweithiwr iechyd proffesiynol ac iechyd galwedigaethol

Byddwn yn casglu gwybodaeth bersonol ychwanegol yn ystod gweithgareddau sy'n gysylltiedig â swydd drwy gydol y cyfnod rydych chi'n gweithio i ni.

## 5. Sut byddwn yn defnyddio gwybodaeth amdanoch chi?

Byddwn ond yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol pan fydd y gyfraith yn ein galluogi ni. Yn fwyaf cyffredin, byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol yn yr amgylchiadau canlynol:

1. Lle bo'n angenrheidiol ar gyfer perfformio'r contract yr ydym wedi ymrwymo iddo gyda chi.
2. Lle bo angen i ni gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol.
3. Lle mae gwneud hynny er budd y cyhoedd; neu at ddibenion swyddogol; neu wrth arfer swyddogaeth y Goron, Gweinidog y Goron neu Adran Gyfreithiol y Llywodraeth fel adran o'r llywodraeth.

Gellir cael achlysuron prin pan fydd angen defnyddio'ch gwybodaeth bersonol i ddiogelu eich buddiannau (neu fuddiannau rhywun arall).

### Sefyllfaoedd y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol

Mae angen yr holl gategorïau o wybodaeth arnom yn y rhestr uchod (gweler Y math o wybodaeth sydd gennym amdanoch chi) i'n galluogi i gyflawni ein rôl fel cyflogwr; i'n galluogi i gydymffurfio â

rhwymedigaethau cyfreithiol, i gyflawni ein swyddogaethau fel adran o’r llywodraeth/swyddogaethau'r Goron; neu lle mae angen gwneud hynny er lles y cyhoedd.

Rhestrir isod y sefyllfaoedd y byddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol.

- Gwneud penderfyniad ynglŷn â’ch recriwtio neu'ch penodiad.
- Penderfynu ar y telerau wrth weithio i ni.
- Sicrhau bod gennych hawl gyfreithiol i weithio yn y DU a darparu'r cliriad diogelwch sy'n briodol ar gyfer eich swydd. Ar gyfer Gweision Sifil, i wirio cymhwysedd bod yn Was Sifil ac i barhau’n Was Sifil.
- Eich talu chi ac, os ydych chi'n weithiwr, i dynnu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol.
- Cysylltu â'ch darparwr pensiwn, gan ddarparu gwybodaeth am newidiadau i'ch cyflogaeth fel dyrchafiad, newid mewn oriau gwaith.
- Gweinyddiaeth gyffredinol y contract rydym wedi'i ymrwymo iddo â chi.
- Rheoli a chynllunio busnes, gan gynnwys cyfrifo ac archwilio.
- Cynnal adolygiadau perfformiad, rheoli perfformiad a phenderfynu ar ofynion perfformiad.
- Gwneud penderfyniadau am adolygiadau cyflog ac iawndal.
- Asesu cymwysterau ar gyfer swydd neu dasg benodol, gan gynnwys penderfyniadau ynglŷn â dyrchafiad.
- Casglu tystiolaeth ac unrhyw gamau eraill sy'n ymwneud â materion cwyno neu ddisgyblu posibl a gwrandawiadau cysylltiedig.
- Gwneud penderfyniadau ynglŷn â’ch cyflogaeth neu ymgysylltiad parhaus.
- Gwneud trefniadau ar gyfer dod â’n perthynas waith i ben.
- Anghenion addysg, hyfforddiant a datblygu.
- Delio ag anghydfodau cyfreithiol sy'n ymwneud â chi, neu gyflogeion, gweithwyr a chontractwyr eraill, gan gynnwys damweiniau yn y gwaith.
- Sefydlu eich ffitrwydd i weithio, rheoli absenoldeb oherwydd salwch.
- Cydymffurfio â rhwymedigaethau iechyd a diogelwch.
- I atal twyll.
- Monitro eich defnydd busnes a'ch defnydd personol o'n systemau gwybodaeth a chyfathrebu i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'n polisïau TG.
- Sicrhau diogelwch rhwydwaith a diogelwch gwybodaeth, gan gynnwys atal mynediad heb ganiatâd i'n systemau cyfrifiadurol a chyfathrebu electronig ac atal dosbarthu meddalwedd maleisus.
- Cynnal astudiaethau dadansoddi data i adolygu a deall cyfraddau cadw a chyfraddau gadael gweithwyr yn well.

- Monitro cyfleoedd cyfartal.
- Delio â cheisiadau‘r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth/Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

Bydd rhai o'r dibenion yn gorgyffwrdd a gall fod sawl rheswm sy'n cyfiawnhau ein defnydd o'ch gwybodaeth bersonol.

**Os na fyddwch yn darparu gwybodaeth bersonol**

Os na fyddwch yn darparu gwybodaeth benodol pan ofynnir amdani, ni fyddwn yn gallu cyflawni'r contract rydym wedi ymrwymo iddo â chi yn llawn (fel eich talu chi neu ddarparu budd-dal), neu gallem gael ein hatal rhag cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol (fel sicrhau iechyd a diogelwch ein gweithwyr).

**Newid diben**

Byddwn ond yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol at y dibenion y cafodd ei chasglu, oni bai ein bod yn ystyried yn rhesymol bod angen i ni ddefnyddio’r wybodaeth am reswm arall a bod y rheswm hwnnw'n gydnaws â'r diben gwreiddiol. Os bydd angen i ni ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol at ddiben newydd neu ddiben digyswllt, byddwn yn eich hysbysu a byddwn yn egluro'r sail gyfreithiol sy'n ein galluogi i wneud hynny.

Nodwch y byddwn, os bydd angen, yn prosesu eich gwybodaeth bersonol heb roi gwybod i chi neu heb eich caniatâd, yn unol â'r rheolau uchod, lle bo hynny’n ofynnol neu'n cael ei ganiatáu yn ôl y gyfraith.

6.**Sut rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol sy’n arbennig o sensitif**

Mae “categorïau arbennig" o wybodaeth bersonol sy’n arbennig o sensitif yn gofyn am ddulliau diogelu uwch. Mae angen i ni gael cyfiawnhad pellach dros gasglu, storio a defnyddio'r math yma o wybodaeth bersonol. Byddwn, os bydd angen, yn prosesu categorïau arbennig o wybodaeth bersonol yn yr amgylchiadau canlynol:

1. Lle mae angen i ni gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol neu arfer ein hawliau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â chyflogaeth ac yn unol â'n polisi diogelu data.
2. Lle mae'n unol â'n polisi diogelu data, er budd y cyhoedd ac yn angenrheidiol ar gyfer:
   a. cyflawni ein swyddogaethau fel Adran y Llywodraeth neu swyddogaeth y Goron
   b. monitro cyfle cyfartal
   c. gweinyddu ein cynllun pensiwn
   d. atal neu ganfod gweithredoedd anghyfreithlon
3. Lle bo angen, asesu eich gallu i weithio ar sail iechyd, yn amodol ar ddulliau diogelu cyfrinachedd priodol.

Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn prosesu'r math hwn o wybodaeth lle bo’i angen mewn perthynas â hawliadau cyfreithiol neu os oes ei angen i ddiogelu eich buddiannau (neu fuddiannau rhywun arall) ac nad ydych yn gallu rhoi eich caniatâd, neu ble rydych eisoes wedi gwneud y wybodaeth yn gyhoeddus.

**Ein rhwymedigaethau fel cyflogwr**

Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol sy’n arbennig o sensitif yn y ffyrdd canlynol:

- Byddwn yn defnyddio gwybodaeth sy'n ymwneud ag absenoldeb; gall hyn gynnwys absenoldeb oherwydd salwch neu absenoldeb teuluol, i gydymffurfio â chyfreithiau cyflogaeth a chyfreithiau eraill.

- Byddwn yn defnyddio gwybodaeth am eich iechyd corfforol neu iechyd meddwl neu statws anabledd, er mwyn sicrhau eich iechyd a'ch diogelwch yn y gweithle ac i asesu'ch ffitrwydd i

weithio, i ddarparu addasiadau addas yn y gweithle, i fonitro a rheoli absenoldeb oherwydd salwch ac i weinyddu budd-daliadau.

- Byddwn yn defnyddio gwybodaeth am eich hil neu darddiad cenedlaethol neu ethnig, credoau crefyddol, athronyddol neu foesol, neu eich bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol, er mwyn sicrhau prosesau monitro ac adrodd ystyrlon ar gyfle cyfartal.

- Byddwn yn defnyddio gwybodaeth aelodaeth undeb llafur i dalu premiymau undeb llafur, i gofrestru statws gweithiwr gwarchodedig ac i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfraith gyflogaeth.

- **Os angen eich caniatâd arnom ni?**

Nid oes angen eich caniatâd os ydym yn defnyddio categorïau arbennig o'ch gwybodaeth bersonol yn unol â'n polisi ysgrifenedig i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol, neu am un o'r rhesymau eraill a amlinellir yn y blwch uchod: 'Sut rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol'. Mewn amgylchiadau prin, os yw'r angen yn codi, byddwn yn cysylltu â chi am eich caniatâd ysgrifenedig i'n caniatáu i brosesu rhai mathau o ddata sy'n arbennig o sensitif. Os gwnawn hynny, byddwn yn rhoi manylion llawn y wybodaeth yr hoffem a'r rheswm pam mae ei hangen, fel y gallwch ystyried yn ofalus a ydych am roi eich caniatâd. Dylech fod yn ymwybodol nad yw'n amod o fewn eich contract gyda ni eich bod yn cytuno ag unrhyw gais am ganiatâd oddi wrthym.

## 7. Gwybodaeth am euogfarnau troseddol

Byddwn ond yn defnyddio gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag euogfarnau troseddol neu ymddygiad troseddol honedig lle mae'r gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. Gall hyn godi pan fo'n rhaid i ni gydymffurfio â'r gyfraith neu am reswm arall lle mae budd sylweddol i'r cyhoedd.

Yn llai cyffredin, byddwn, os oes angen, yn defnyddio gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag euogfarnau troseddol neu ymddygiad troseddol honedig lle bo'n angenrheidiol mewn perthynas â hawliadau cyfreithiol, lle mae angen diogelu'ch buddiannau (neu fuddiannau rhywun arall) ac nad ydych chi'n gallu rhoi eich caniatâd, neu ble rydych chi eisoes wedi gwneud y wybodaeth yn gyhoeddus.

Byddwn ond yn casglu gwybodaeth am euogfarnau troseddol neu honiadau o ymddygiad troseddol lle bo'n briodol o ystyried natur y rôl a lle gallwn wneud hynny'n gyfreithlon. Lle bo'n briodol, byddwn yn casglu gwybodaeth am euogfarnau/cyhuddiadau troseddol fel rhan o'r broses recriwtio neu os cawn ein hysbysu am wybodaeth o'r fath yn uniongyrchol gennych chi yn ystod y cyfnod rydych chi'n gweithio i ni. Byddwn yn defnyddio gwybodaeth am euogfarnau/honiadau troseddol a throseddau yn y ffyrdd canlynol:

- croesgyfeirio at bolisïau/prosesau/gweithdrefnau gwirio perthnasol

[Caniateir i ni ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol yn y ffordd yma lle mae'n unol â'n polisi diogelu data lle mae un o'r rhesymau canlynol yn codi:

- Lle mae angen i ni gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol neu arfer ein hawliau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â chyflogaeth;
- Lle mae gwneud hynny o fudd sylweddol i'r cyhoedd yn ac yn angenrheidiol i gyflawni ein swyddogaethau fel Adran y Llywodraeth neu swyddogaeth y Goron]

Gwneud penderfyniadau'n awtomatig

## 8. Gwneud penderfyniadau'n awtomatig

Mae gwneud penderfyniadau awtomatig yn digwydd pan fydd system electronig yn defnyddio gwybodaeth bersonol i wneud penderfyniad heb ymyrraeth ddynol. Mae gennym hawl i wneud penderfyniadau awtomatig yn yr amgylchiadau canlynol

1. Lle rydym wedi eich hysbysu o'r penderfyniad ac wedi rhoi 21 diwrnod i chi ofyn am ail-ystyriaeth.
2. Lle bo angen cyflawni ein dyletswydd fel Cyflogwr, mae mesurau priodol ar waith i ddiogelu'ch hawliau.
3. Mewn amgylchiadau prin, gyda'ch caniatâd ysgrifenedig penodol a lle bo mesurau priodol ar waith i ddiogelu'ch hawliau.

Os byddwn yn gwneud penderfyniad awtomatig ar sail unrhyw wybodaeth bersonol sy'n arbennig o sensitif, rhaid i ni gael naill ai'ch caniatâd ysgrifenedig penodol neu mae'n rhaid ei gyfiawnhau er budd y cyhoedd, a rhaid i ni hefyd roi mesurau priodol ar waith i ddiogelu eich hawliau.

Oni bai bod gennym sail gyfreithlon dros wneud hynny a'n bod wedi eich hysbysu, ni fydd penderfyniadau sy'n cael effaith sylweddol arnoch chi yn cael eu gwneud yn seiliedig ar benderfyniad awtomatig yn unig.

[Bydd angen mwy fan hyn neu mewn dogfen bolisi cysylltiedig os yw staff yn destun penderfyniadau sy'n cael effaith sylweddol]

## 9. Rhannu Data

Mewn rhai amgylchiadau, bydd rhaid i ni rannu eich data gyda thrydydd partïon, gan gynnwys darparwyr gwasanaethau trydydd parti a chyrff eraill y Gwasanaeth Sifil.

Mae'n ofynnol i drydydd partïon barchu diogelwch eich data a'i drin yn unol â'r gyfraith.

Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn trosglwyddo'ch gwybodaeth bersonol y tu allan i'r UE.

Os byddwn yn gwneud hynny, gallwch ddisgwyl elfen o ddiogelwch tebyg o ran eich gwybodaeth bersonol.

**Pam fyddech chi'n rhannu fy ngwybodaeth bersonol â thrydydd partïon?**

Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol gyda thrydydd partïon lle bo'n ofynnol yn ôl y gyfraith, lle bo'n angenrheidiol i weinyddu'r berthynas waith gyda chi; lle bo hynny er budd y cyhoedd neu lle mae'n angenrheidiol i gyflawni ein swyddogaethau fel Adran y Llywodraeth neu swyddogaeth y Goron. Bydd hynny, mewn rhai amgylchiadau, yn golygu rhannu categorïau arbennig o ddata personol a, lle bo'n berthnasol, data am euogfarnau/honiadau troseddol.

**Pa ddarparwyr gwasanaethau trydydd parti sy'n prosesu fy ngwybodaeth bersonol?**

Mae "trydydd parti" yn cynnwys darparwyr gwasanaethau trydydd parti (gan gynnwys contractwyr ac asiantau dynodedig) ac endidau eraill yn y Gwasanaeth Sifil. [Mae'r gweithgareddau canlynol yn cael eu cynnal gan ddarparwyr gwasanaethau trydydd parti: cyflogres, gweinyddu pensiwn, darparu budd-daliadau a gweinyddu, gwasanaethau TG, archwilio diogelwch. Mae'r darparwyr gwasanaethau trydydd parti canlynol yn prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch at y dibenion canlynol:

- Shared Service Connect Limited (SSCL)
- Darparwyr Pensiwn
- Gwasanaeth Busnes Amddiffyn
- Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Gwasanaeth Archwilio Diogelwch Cenedlaethol
- Adrannau Eraill y Llywodraeth
- People Asset Management Ltd. (PAM Assist)
- Specsavers

- Edenred
- Health Management Ltd.
- Havas
- CSHR Casework
- MYCSP
- GRS ar gyfer SCS, Fast Stream a chynlluniau eraill
- CSL
- Working Transitions
- Calders Conferences
- Redfern Travel
- Enterprise Car Hire
- Cartus – gwasanaeth adleoli
- Brooke Street
- Calders Conferences
- Redfern Travel
- Enterprise Car Hire
- Cartus – gwasanaeth adleoli

**Pa mor ddiogel yw fy ngwybodaeth gyda darparwyr gwasanaethau trydydd parti?**

Mae'n ofynnol i bob un o'n darparwyr gwasanaethau trydydd parti gymryd mesurau diogelwch priodol i amddiffyn eich gwybodaeth bersonol yn unol â'n polisïau. Nid ydym yn caniatáu i'n darparwyr gwasanaethau trydydd parti ddefnyddio eich data personol at eu dibenion eu hunain. Rydym ond yn caniatáu iddynt brosesu eich data personol at ddibenion penodol ac yn unol â'n cyfarwyddiadau.

**Pryd gallech chi rannu fy ngwybodaeth bersonol gyda sefydliadau eraill o fewn y Gwasanaeth Sifil?**

Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol gyda sefydliadau eraill y Gwasanaeth Sifil fel rhan o'n gweithgareddau adrodd rheolaidd ar berfformiad adrannol, yng nghyd-destun ad-drefnu neu ailstrwythuro'r busnes, ar gyfer cynnal a chadw systemau a chynnal data; cynlluniau rheoli busnes / talent, cynllunio olyniaeth, dadansoddi ystadegol; a rheoli a gweithredu'r Gwasanaeth Sifil yn gyffredinol. Rhennir data personol hefyd gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn bennaf at ddibenion ystadegol.

**Beth am drydydd partïon eraill?**

Os oes angen, bydd angen i ni rannu eich gwybodaeth bersonol gyda rheoleiddiwr neu i gydymffurfio â'r gyfraith fel arall.

## Trosglwyddo gwybodaeth y tu allan i'r UE

Os bydd angen, byddwn yn trosglwyddo'r wybodaeth bersonol a gasglwn amdanoch i'r wlad **NEU'R** gwledydd canlynol y tu allan i'r UE [India] er mwyn recriwtio staff newydd. Nid oes penderfyniad digonolrwydd gan y Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas ag India. Mae hyn yn golygu nad yw'r wlad rydym yn trosglwyddo'ch data iddi yn cael ei hystyried fel gwlad sy'n cynnig lefel ddigonol o ddiogelwch ar gyfer eich gwybodaeth bersonol.

Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod eich gwybodaeth bersonol yn derbyn lefel ddigonol o ddiogelwch rydym wedi rhoi'r mesurau priodol canlynol ar waith i sicrhau bod eich gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin gan y trydydd partïon hynny mewn ffordd sy'n gyson ac yn parchu deddfau'r UE a'r DU ar ddiogelu data, drwy nodi hynny fel rhan o'n contract gyda'n cyflenwr trydydd parti. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ynglŷn â'r mesur[au] amddiffyn hyn, gallwch ofyn i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder drwy gysylltu â cct_admin@justice.gov.uk

10. **Diogelu Data**

Rydym wedi rhoi mesurau ar waith i warchod diogelwch eich gwybodaeth. Mae manylion y mesurau hyn ar gael ar gais drwy e-bostio cct_admin@justice.gov.uk

Bydd trydydd partïon ond yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn ôl ein cyfarwyddyd ni a lle maent wedi cytuno i drin y wybodaeth yn gyfrinachol a'i chadw'n ddiogel.

Rydym wedi rhoi mesurau diogelwch priodol ar waith i atal eich gwybodaeth bersonol rhag cael ei cholli, ei defnyddio neu gael mynediad iddi mewn ffordd anawdurdodedig, ei newid neu ei datgelu. Yn ogystal, rydym yn cyfyngu ar fynediad i'ch gwybodaeth bersonol ymhlith gweithwyr, asiantau, contractwyr a thrydydd partïon eraill y mae angen y wybodaeth arnynt. Byddant ond yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn ôl ein cyfarwyddyd ni. Gellir cael manylion am y mesurau hyn gan Swyddog Diogelwch Technoleg Gwybodaeth y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Rydym wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i ddelio ag unrhyw doriadau diogelwch posib o ran data a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol o unrhyw doriad posib lle mae'n ofynnol i ni wneud hynny'n gyfreithiol.

11. **Cadw Data**

**Am ba mor hir fyddwch chi'n defnyddio fy ngwybodaeth?**

Byddwn ond yn cadw eich gwybodaeth bersonol cyn hired ag y bo'n angenrheidiol i gyflawni'r dibenion y cafodd ei chasglu, gan gynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifo neu adrodd. Mae manylion cyfnodau cadw ar gyfer gwahanol agweddau o'ch gwybodaeth bersonol ar gael yn ein polisi cadw sydd ar gael yn: [ychwanegu'r ddolen]. Er mwyn pennu'r cyfnod cadw priodol ar gyfer data personol, rydym yn ystyried swm, natur a sensitifrwydd y data personol, y perygl posibl o niwed pe byddai eich data personol cael ei ddefnyddio neu ei ddatgelu heb ganiatâd, y dibenion rydym yn prosesu eich data personol ar eu cyfer ac a allwn gyflawni'r dibenion hynny drwy ddulliau eraill, a'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Mewn rhai amgylchiadau bydd eich gwybodaeth bersonol yn ddienw fel nad yw'n gysylltiedig â chi mwyach, ac os felly, byddwn yn defnyddio gwybodaeth o'r fath heb roi rhybudd pellach i chi. Ar ôl i chi orffen gweithio fel cyflogai, gweithiwr neu gontractwr y cwmni, byddwn yn cadw ac yn dinistrio'ch gwybodaeth bersonol yn ddiogel yn unol â [ein polisi cadw data **NEU** ddeddfau a rheoliadau perthnasol].

12. **Hawliau mynediad, cywiro, dileu a chyfyngu**

**Eich dyletswydd i roi gwybod i ni am newidiadau**

Mae'n bwysig bod y wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch yn gywir ac yn gyfoes. Rhowch wybod i ni os yw'ch gwybodaeth bersonol yn newid yn ystod eich perthynas waith gyda ni.

**Eich hawliau mewn cysylltiad â gwybodaeth bersonol**

O dan rai amgylchiadau, yn ôl y gyfraith, mae gennych yr hawl i:

- **Ofyn am fynediad** i'ch gwybodaeth bersonol (a elwir fel arfer yn "cais gwrthrych am wybodaeth"). Mae hyn yn eich galluogi i gael copi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch ac i wirio ein bod yn ei phrosesu'n gyfreithlon.

- **Gofyn am gywiro'r** wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch chi. Mae hyn yn eich galluogi i gywiro unrhyw wybodaeth anghyflawn neu anghywir sydd gennym amdanoch.

- **Gofyn am ddileu** eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ddileu neu gael gwared ar wybodaeth bersonol lle nad oes rheswm da gyda ni i'w phrosesu o hyd. Mae gennych

hefyd hawl i ofyn i ni ddileu neu gael gwared ar eich gwybodaeth bersonol lle rydych wedi arfer eich hawl i wrthwynebu prosesu (gweler isod).

- **Gwrthwynebu prosesu** eich gwybodaeth bersonol lle rydym yn dibynnu ar fudd cyfreithlon (neu drydydd parti) a bod rhywbeth ynglŷn â'ch sefyllfa benodol sy'n eich gwneud yn awyddus i wrthwynebu prosesu ar y sail hon. Mae gennych hefyd yr hawl i wrthwynebu lle rydym yn prosesu eich gwybodaeth bersonol at ddibenion marchnata.

- **Gofyn am gyfyngu prosesu** eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni atal prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi, er enghraifft, os ydych eisiau i ni sefydlu ei chywirdeb neu'r rheswm dros ei phrosesu.

- **Gofyn am drosglwyddo** eich gwybodaeth bersonol i barti arall.

Os ydych eisiau adolygu, gwirio, cywiro neu ofyn am ddileu eich gwybodaeth bersonol, gwrthwynebu prosesu eich data personol, neu ofyn i ni drosglwyddo copi o'ch gwybodaeth bersonol i barti arall, cysylltwch â MoJ_HR_Operations@justice.gov.uk yn ysgrifenedig.

**Nid oes angen ffi gan amlaf**

Ni fydd angen i chi dalu ffi fel rheol i gael mynediad i'ch gwybodaeth bersonol (neu i arfer unrhyw un o'r hawliau eraill). Serch hynny, caniateir i ni o dan y gyfraith godi ffi resymol os yw eich cais am fynediad yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol. Fel arall, gallwn wrthod cydymffurfio â'r cais mewn amgylchiadau o'r fath.

**Yr hyn rydym ei angen wrthoch chi**

Mae angen i ni ofyn am wybodaeth benodol gennych chi o bryd i'w gilydd er mwyn ein helpu i gadarnhau eich hunaniaeth a sicrhau eich hawl i gael mynediad at y wybodaeth (neu i arfer unrhyw un o'ch hawliau eraill). Mesur diogelwch priodol arall yw hwn i sicrhau nad yw gwybodaeth bersonol yn cael ei datgelu i unrhyw berson nad oes ganddo/ganddi unrhyw hawl i'w derbyn.

13. **Yr hawl i dynnu caniatâd yn ôl**

Yn yr amgylchiadau prin lle rydych chi wedi rhoi eich caniatâd i gasglu, prosesu a throsglwyddo'ch gwybodaeth bersonol at ddiben penodol, mae gennych yr hawl i dynnu'ch caniatâd yn ôl ar gyfer y prosesu penodol hwnnw ar unrhyw adeg. I dynnu'ch caniatâd yn ôl, cysylltwch â MoJ_HR_Operations@justice.gov.uk Ar ôl i ni gael hysbysiad eich bod wedi tynnu'ch caniatâd yn ôl, ni fyddwn bellach yn prosesu'ch gwybodaeth at y diben neu'r dibenion y cytunwyd arnynt yn wreiddiol, oni bai bod gennym sail gyfreithlon arall dros wneud hynny yn ôl y gyfraith.

14. **Swyddog Diogelu Data**

Rydym wedi penodi swyddog diogelu data (DPO) i oruchwylio'r broses o gydymffurfio â'r hysbysiad preifatrwydd hwn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr hysbysiad preifatrwydd hwn neu sut rydym yn trin eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch â data.compliance@justice.gsi.gov.uk <mailto:data.compliance@justice.gsi.gov.uk> Mae gennych yr hawl i wneud cwyn ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), awdurdod goruchwyliol y DU ar gyfer materion diogelu data.

15. **Newidiadau i'r hysbysiad preifatrwydd hwn**

Rydym yn cadw'r hawl i ddiweddaru'r hysbysiad preifatrwydd hwn ar unrhyw adeg, a byddwn yn rhoi hysbysiad preifatrwydd newydd i chi pan fyddwn yn gwneud unrhyw addasiadau sylweddol. Byddwn hefyd yn eich hysbysu mewn ffyrdd eraill o bryd i'w gilydd ynglŷn â phrosesu eich gwybodaeth bersonol.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr hysbysiad preifatrwydd hwn, cysylltwch â MoJ_HR_Operations@justice.gov.uk <mailto:MoJ_HR_Operations@justice.gov.uk>**